## Llythrennedd – Darllen er gwybodaeth
### Y Cyfnod Sylfaen

| Elfennau | Agweddau | Dosbarth derbyn<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 1<br>Mae plant yn gallu: | Blwyddyn 2<br>Mae plant yn gallu: |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | • dewis deunyddiau darllen gan gynnwys llyfrau<br>• cydnabod bod geiriau'n cael eu ffurfio o ffonemau (seiniau) a bod ffonemau'n cael eu cynrychioli gan graffemau (llythrennau ysgrifenedig)<br>• cyfuno cyfuniadau o lythrennau<br>• segmentu cyfuniadau o lythrennau<br>• darllen geiriau syml megis cytsain-llafariad-cytsain<br>• darllen capsiynau a thestunau syml gan adnabod geiriau sy'n digwydd yn aml<br>• dangos ymwybyddiaeth o'r atalnod llawn wrth ddarllen<br>• dangos ymwybyddiaeth o'r gwahaniaeth rhwng storïau a thestunau gwybodaeth<br>• gwneud ystyr o nodweddion gweledol y testun, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau*<br>• adnabod geiriau a lluniau ar sgrin a gwneud ystyr ohonyn nhw | • dewis deunyddiau darllen ac esbonio cynnwys llyfr a pham maent yn ei hoffi<br>• defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol:<br>– strategaethau ffonig i ddatgodio geiriau, *e.e segmentu a chyfuno llythrennau*<br>– adnabod geiriau sy'n digwydd yn aml<br>– cliwiau'r cyd-destun, *e.e. graffig a syntactig*<br>– hunan-gywiro gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen<br>• darllen testunau addas yn gywir ac yn rhugl<br>• darllen gan roi sylw i'r atalnod llawn a'r gofynnod<br>• darllen ar goedd â mynegiant, gan ddangos ymwybyddiaeth o'r ebychnod a dyfynodau<br>• adnabod nodweddion testun syml megis teitlau a lluniau er mwyn esbonio'r testun<br>• chwilio am gliwiau yn y testun, *e.e. geiriau, cynllun, dilyniant, er mwyn deall gwybodaeth neu naratif*<br>• deall ystyr nodweddion gweledol a'u cysylltu â'r testun ysgrifenedig, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau*<br>• adnabod ffeithiau sy'n gysylltiedig â thopig y testun<br>• adnabod geiriau a lluniau ar sgrin sy'n gysylltiedig â thopig | • dewis deunyddiau darllen yn annibynnol gan roi rhesymau dros y dewis<br>• defnyddio'r strategaethau darllen a ganlyn yn fwyfwy annibynnol ar gyfer ystod ehangach o destunau cyfarwydd ac anghyfarwydd:<br>– strategaethau ffonig, *e.e. segmentu a chyfuno llythrennau*<br>– adnabod geiriau sy'n digwydd yn aml<br>– cliwiau'r cyd-destun, *e.e. graffig a syntactig*<br>– hunan-gywiro gan gynnwys ailddarllen a darllen ymlaen<br>• darllen ystod ehangach o destunau addas yn fwyfwy cywir a rhugl<br>• darllen ar goedd gan roi sylw i'r atalnodi gan gynnwys atalnod llawn, gofynnod, ebychnod a dyfynodau gan amrywio goslef, llais a chyflymder<br>• adnabod a defnyddio nodweddion testun, *e.e. teitlau, penawdau a lluniau,* i ganfod a deall gwybodaeth benodol<br>• chwilio am eiriau allweddol i ganfod am beth mae'r testun yn sôn<br>• defnyddio holl nodweddion gwahanol y testunau i wneud ystyr megis lluniau, siartiau a'r cynllun<br>• cysylltu gwybodaeth o rannau gwahanol o'r testun<br>• dod o hyd i wybodaeth fanwl-gywir a'i ddidoli gan ddilyn categori neu bennawd a ddarparwyd gan yr athro/athrawes, *e.e. bwyd, cynefin*<br>• adnabod geiriau allweddol er mwyn chwilio am wybodaeth, a newid y geiriau chwilio yn ôl yr angen |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | • ail-ddweud storïau cyfarwydd mewn ffordd syml<br>• galw i gof peth gwybodaeth o destun gan ddefnyddio nodweddion gweledol a geiriau<br>• cyfuno gwybodaeth a syniadau o destun gyda phrofiad personol | • ail-ddweud yn y drefn gywir ddigwyddiadau o ddarn o naratif<br>• galw i gof fanylion o destunau gwybodaeth<br>• defnyddio profiad personol i ategu ddealltwriaeth o destunau | • ail-ddweud naratifau a gwybodaeth o destunau gan gynnwys rhai manylion<br>• esbonio manylion perthnasol a gwybodaeth allweddol o destunau<br>• defnyddio profiad personol perthnasol a gwybodaeth flaenorol i ategu dealltwriaeth o destunau |
| | **Ymateb a dadansoddi** | • dangos diddordeb mewn llyfrau ac ymateb i'w cynnwys<br>• dilyn testunau sy'n cael eu darllen iddynt gan ymateb yn briodol<br>• mwynhau edrych ar lyfrau syml, *e.e. hwiangerddi, stori, deunydd ffeithiol*<br>• adnabod ambell air mewn llyfr cyfarwydd. | • siarad am ddigwyddiadau, iaith a gwybodaeth wrth ragfynegi digwyddiadau ac ystyried ystyr<br>• gwneud cysylltiadau syml â gwybodaeth am y topig<br>• mynegi barn am wybodaeth yn y testun<br>• mwynhau dechrau darllen a siarad am gynnwys llyfrau/testunau<br>• adnabod patrymau sy'n cael eu hailadrodd mewn hwiangerddi a rhigymau cyfarwydd, *e.e. odlau megis 'troed', 'coed'.* | • dangos dealltwriaeth a mynegi barn am ddigwyddiadau neu syniadau pwysig<br>• gwneud amryw o gysylltiadau â gwybodaeth am y topig<br>• mynegi barn am wybodaeth gan ddefnyddio manylion o'r testun<br>• mwynhau darllen a deall ystod o destunau, *e.e. chwedlau Cymraeg a thestunau gwybodaeth*<br>• darllen penillion sy'n cynnwys odlau, *e.e. blodyn, nodyn*<br>• dechrau deall rhai idiomau a chymariaethau cyfarwydd sy'n cyfoethogi testun. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012
WG14632

## Llythrennedd – Darllen er gwybodaeth
### Cyfnod Allweddol 2

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | • defnyddio ystod o strategaethau i wneud ystyr o eiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth o ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cyd-destun cystrawennol a gwybodaeth flaenorol o'r cyd-destun a'r math o destun<br>• dechrau darllen testunau gwybodaeth yn annibynnol a chan ganolbwyntio<br>• darllen ar goedd gan ddefnyddio'r atalnodau i helpu'r mynegiant<br>• llithr ddarllen (sganio) i gael trosolwg ar destun, *e.e. topig, pwrpas*<br>• chwilio am wybodaeth benodol yn y testun gan ddefnyddio tablau cynnwys, mynegeion, geirfâu, geiriaduron<br>• cysylltu'r wybodaeth mewn cliwiau gweledol, *e.e. darluniau, ffotograffau, diagramau a siartiau,* er mwyn gwella dealltwriaeth<br>• adnabod dibenion gwahanol testunau, *e.e. ryseitiau, amserlenni, cynlluniau, rheolau*<br>• gwybod sut mae testunau'n cael eu trefnu, *e.e. rhestrau, pwyntiau â rhif, diagramau â saethau, tablau a phwyntiau bwled*<br>• dod o hyd i wybodaeth ar dudalennau gwe gan ddefnyddio nodweddion y sgrin, *e.e. bariau offer, bariau ochr, penawdau, saethau* | • defnyddio ystod o strategaethau i wneud ystyr o eiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth o ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cyd-destun cystrawennol a gwybodaeth flaenorol o'r cyd-destun a'r math o destun<br>• darllen testunau, gan gynnwys testunau heb fawr o gliwiau gweledol, yn annibynnol, gan ganolbwyntio<br>• defnyddio'u dealltwriaeth o gystrawen y frawddeg ac atalnodi i wneud ystyr mewn brawddegau cymhleth<br>• llithr ddarllen (sganio) i gael prif neges testun neu'r prif syniad mewn testun neu bennod<br>• cip ddarllen (sgimio) am wybodaeth benodol gan ddefnyddio amryw o nodweddion trefn y testun megis y cynnwys, y mynegai, diagramau â labeli a'r eirfa<br>• adnabod mathau gwanhaol o destun yn ôl eu strwythur, eu geirfa, eu cynnwys, eu cynllun a'u pwrpas<br>• adnabod nodweddion testunau, *e.e. disgrifio proses yn fanwl, rhoi rhesymau, trefn gronolegol*<br>• dod o hyd i wybodaeth a syniadau ar dudalennau gwe, gan ddefnyddio hyperddolenni, chwilio am eiriau, ac ati, ac asesu pa rai yw'r dulliau mwyaf effeithlon | • defnyddio ystod o strategaethau i wneud ystyr o eiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth o ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cyd-destun cystrawennol a gwybodaeth flaenorol o'r cyd-destun a'r math o destun<br>• darllen testunau estynedig yn annibynnol am gyfnodau hir<br>• adnabod sut mae atalnodi yn perthyn i gystrawen brawddegau a sut mae ystyr yn cael ei llunio mewn brawddegau cymhleth<br>• defnyddio ystod o strategaethau i lithr ddarllen (sganio), *e.e. dod o hyd i'r geiriau neu'r ymadroddion allweddol, y byrdwn, y prif syniadau, themâu*<br>• cip ddarllen (sgimio) i ddod o hyd i fanylion penodol gan ddefnyddio trefnyddion graffig a thestunol, *e.e. is-benawdau, diagramau*<br>• adnabod nodweddion testunau, *e.e. cyflwyniad i'r topig, dilyniant, darluniau, pa fesur o ffurfioldeb*<br>• adnabod nodweddion mewn testunau y bwriedir iddynt berswadio, *e.e. gor-ddweud, dewis geiriau, amwysedd*<br>• defnyddio gwybodaeth o ffynonellau yr ymddiriedir ynddynt, ar y sgrin ac ar bapur, gan ddethol a lawrlwytho yn ôl yr angen | • defnyddio ystod o strategaethau i wneud ystyr o eiriau a brawddegau, gan gynnwys gwybodaeth o ffoneg, gwreiddiau geiriau, teuluoedd geiriau, cyd-destun cystrawennol a gwybodaeth flaenorol o'r cyd-destun a'r math o destun<br>• darllen testunau cymhleth yn annibynnol am gyfnodau hir<br>• deall sut gall atalnodi amrywio, gan effeithio ar gystrawen ac ystyr y frawddeg, *e.e. 'Ces i gacen(,) siocled a chaws i de*<br>• defnyddio ystod o strategaethau i lithr ddarllen (sganio) a chip ddarllen (sgimio) am wybodaeth<br>• darllen yn fanwl, gan wneud nodiadau pwrpasol<br>• gwahaniaethu rhwng y prif syniadau a syniadau ategol gan ddewis y pwyntiau hanfodol<br>• dechrau deall nodweddion dogfennau swyddogol a hanesyddol, *e.e. iaith ffurfiol, cynllun, penawdau, troednodiadau, sêr mewn testunau fel ceisiadau am basbort, dogfennau'r cyfrifiad, hysbysiadau cynllunio*<br>• asesu ansawdd a dibynadwyedd gwybodaeth ar dudalennau gwe, gan bwyso a mesur tarddiad a dilysu cywirdeb |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | • adnabod yn gywir y topig, y prif syniadau a'r wybodaeth allweddol mewn testunau, *e.e. drwy amlygu ac ailadrodd gan ddefnyddio geiriau'r testun*<br>• deall syniadau a gwybodaeth drwy gysylltu gosodiadau pendant, *e.e. achos ac effaith* | • adnabod yn gywir y prif syniadau a'r wybodaeth allweddol mewn testunau; defnyddio'r wybodaeth yn eu gwaith eu hunain<br>• deall y cysylltiadau rhwng gwybodaeth, *e.e. dilyniant, pwysigrwydd* | • dangos dealltwriaeth o'r prif bwyntiau a'r manylion arwyddocaol mewn testunau gwahanol ar yr un topig<br>• casglu ystyr nad yw wedi'i datgan yn bendant, *e.e. goblygiadau, canlyniadau*<br>• cymharu strwythurau testunau y bwriedir iddynt drafod neu berswadio | • dangos dealltwriaeth o'r nodweddion a'r themâu allweddol ar draws detholiad o ddeunyddiau<br>• casglu syniadau nad ydynt wedi'u datgan yn bendant, *e.e. safbwyntiau neu agweddau awduron*<br>• nodi sut mae dadleuon effeithiol yn cael eu llunio, *e.e. cysylltu pwyntiau, achub y blaen ar anghytundeb, defnyddio enghreifftiau, apelio at y darllenydd* |
| | **Ymateb a dadansoddi** | • defnyddio gwybodaeth o destunau yn eu disgrifiad o'r topig drwy drefnu neu ad-drefnu'r wybodaeth<br>• gwneud cysylltiadau rhwng gwybodaeth a syniadau newydd mewn testun a'r hyn y maent eisoes yn ei wybod a'i gredu am y topig<br>• nodi pam yr ysgrifennodd yr awdur y testun, *e.e. i berswadio pobl i ymweld â'r castell*<br>• ystyried pa mor dda y mae'r deunydd wedi'i gyflwyno, *e.e. clir, trefnus, geirfa a darluniau diddorol*<br>• cymryd diddordeb mewn gwybodaeth y tu hwnt i brofiad personol<br>• gwahaniaethu rhwng deunydd darllen Cymraeg a'r Saesneg<br>• deall idiomau a chymariaethau cyfarwydd Cymraeg sy'n cyfoethogi testun. | • dewis manylion a thystiolaeth o'r testunau i'w defnyddio mewn gwaith ysgrifennu, gan nodi patrymau a thynnu casgliadau<br>• adnabod agwedd yr awdur at y topig, *e.e. yn edmygu ffigur hanesyddol, diddordeb yn y ffeithiau yn unig*<br>• ystyried a yw'r testun yn effeithiol wrth gyfleu gwybodaeth a syniadau, *e.e. yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol, yn defnyddio dyfeisiau i helpu'r darllenydd i ddeall*<br>• cymryd diddordeb a mynegi barn ar syniadau y tu hwnt i brofiad personol<br>• darllen deunydd yn y Gymraeg er mwyn cyflwyno gwybodaeth a chasglu prif ffeithiau yn y Saesneg<br>• deall idiomau a chymariaethau sy'n cyfoethogi testun. | • cydgasglu a gwneud cysylltiadau â gwybodaeth a syniadau o ffynonellau gwahanol, ffurfio damcaniaethau a thynnu casgliadau, a'u cyflwyno mewn ffyrdd gwahanol, *e.e. siart llif, diagram*<br>• cymharu safbwynt awduron gwahanol ar yr un topig, *e.e. hela*<br>• pwyso a mesur a yw'r cynnwys yn ddibynadwy, *e.e. ydy ffotograffau'n fwy dibynadwy na lluniadau*<br>• nodi ac ystyried syniadau a gwybodaeth sy'n ennyn diddordeb<br>• nodi prif bwyntiau mewn adrannau o'r testun<br>• darllen amrywiaeth o destunau Cymraeg, *e.e. ffuglen, ffaith, barddoniaeth, i gywain gwybodaeth yn y naill iaith neu'r llall (llythrennedd deuol)*<br>• deall idiomau, cymariaethau a throsiadau sy'n cyfoethogi testun. | • cydgasglu a gwneud cysylltiadau rhwng gwybodaeth a syniadau a'u cyflwyno mewn modd priodol, *e.e. graffiau, tablau*<br>• ystyried safbwyntiau gwahanol ar dopig a pha un yw'r mwyaf cydlynol a chredadwy<br>• clorianu testun, ei gynnwys, ei gyflwyniad a'i apêl<br>• nodi syniadau a gwybodaeth sy'n eu diddori a datblygu dealltwriaeth ehangach a dyfnach<br>• defnyddio tystiolaeth o destun i gefnogi barn<br>• darllen er mwyn trawsieithu, *e.e. ffuglen, ffaith a barn*<br>• darllen, deall a dehongli pwrpas y defnydd o idiomau, priod-ddulliau, cymariaethau a throsiadau sy'n cyfoethogi testun. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012

## Llythrennedd – Darllen er gwybodaeth
### Cyfnod Allweddol 3

| Elfennau | Agweddau | Blwyddyn 7 | Blwyddyn 8 | Blwyddyn 9 |
|---|---|---|---|---|
| | | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** | **Mae dysgwyr yn gallu:** |
| **Canfod, dethol a defnyddio gwybodaeth** | **Strategaethau darllen** | • defnyddio'u gwybodaeth o'r canlynol:<br>– tarddiadau a theuluoedd geiriau<br>– gramadeg, cystrawen y frawddeg a mathau o destun<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• darllen, gan ganolbwyntio, destunau, ar sgrin ac ar bapur, sy'n newydd iddynt, a deall yr wybodaeth ynddynt<br>• defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i lithr ddarllen (sganio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u cip ddarllen (sgimio) am wybodaeth fanwl<br>• defnyddio chwiliadau rhyngrwyd yn ofalus, gan benderfynu pa ffynonellau i'w darllen a'u credu | • defnyddio'u gwybodaeth o'r canlynol:<br>– tarddiadau a theuluoedd geiriau<br>– gramadeg, cystrawen y frawddeg a mathau o destun<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• darllen, gan ganolbwyntio, destunau, ar sgrin ac ar bapur, sy'n newydd iddynt, a deall yr wybodaeth ynddynt<br>• defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys darllen cyflym, darllen agos, anodi, rhagfynegi, i lithr ddarllen (sganio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u cip ddarllen (sgimio) am wybodaeth fanwl<br>• dewis a dethol pa ffynonellau ar y rhyngrwyd i'w lawrlwytho neu i'w dyfynnu, yn ôl eu dibynadwyedd a'u perthnasedd | • defnyddio'u gwybodaeth o'r canlynol:<br>– tarddiadau a theuluoedd geiriau<br>– gramadeg, cystrawen y frawddeg a mathau o destun<br>– cynnwys a chyd-destun<br>i wneud synnwyr o eiriau, brawddegau a thestunau cyfan<br>• darllen, gan ganolbwyntio, destunau, ar sgrin ac ar bapur, sy'n newydd iddynt, a deall yr wybodaeth ynddynt<br>• defnyddio ystod o strategaethau, gan gynnwys darllen cyflym, darllen agos, anodi, darogan, i lithr ddarllen (sganio) testunau i gael y neges, y syniadau a'r themâu allweddol, a'u cip ddarllen (sgimio) am wybodaeth fanwl<br>• defnyddio'r rhyngrwyd yn llawn ond yn ddetholus er mwyn diweddaru, ehangu a dyfnhau dealltwriaeth o wybodaeth, syniadau a materion |
| **Ymateb i'r hyn a ddarllenwyd** | **Darllen a deall** | • dewis y prif bwyntiau mewn testun ac adnabod sut mae gwybodaeth a thystiolaeth yn cael eu defnyddio i'w hategu<br>• defnyddio gwahanol nodweddion testunau, megis is-benawdau, graffiau, darluniau, i ddod o hyd i wybodaeth a chymryd nodiadau defnyddiol<br>• deall, casglu ystyr a gwybodaeth drwy wneud cysylltiadau yn y testun a darllen rhwng y llinellau<br>• dilyn syniadau cychwynnol sydd o ddiddordeb iddynt drwy wneud rhagor o ymchwil | • dilyn a defnyddio deunyddiau ychwanegol mewn testunau, *e.e. troednodiadau, hyperddolenni, cyfeiriadau, gan ddefnyddio nodiadau i gofnodi gwybodaeth a'i siapio*<br>• adnabod cysylltiadau rhwng syniadau a gwybodaeth ar draws testunau gan ddefnyddio casgliadau a dealltwriaeth o haenau o ystyron<br>• darllen o amgylch topig sydd o ddiddordeb a datblygu darlun ehangach | • asesu dibynadwyedd y testun<br>• defnyddio ystod o ffynonellau i sicrhau dealltwriaeth lawn o dopig neu bwnc, gan ddefnyddio dulliau gwahanol i gofnodi deunyddiau a'u trefnu<br>• cymharu a chyferbynnu themâu a materion ar draws ystod o destunau<br>• ymchwilio i ystod eang o ffynonellau i ddatblygu dealltwriaeth lawn o dopig neu bwnc |
| | **Ymateb a dadansoddi** | • cydgasglu gwybodaeth perthnasol, gan ddewis fformatau priodol i'w chyflwyno, *e.e. graffiau, tablau, diagramau*<br>• mynegi barn ar agweddau dewis testun megis themâu, delweddau ac ymadroddion<br>• gwahaniaethu rhwng ffeithiau a barn gan adnabod sut maent yn cael eu cyflwyno<br>• cymharu dwy farn am yr un topig a phwyso a mesur p'un yw'r fwyaf dilys<br>• adnabod testunau sy'n apelio gan nodi pham, gan ddefnyddio tystiolaeth i ategu (eu) barn<br>• darllen yn y ddwy iaith er mwyn trawsieithu gwybodaeth berthnasol i bwnc, cynulleidfa a thestun<br>• darllen, deall a dehongli pwrpas y defnydd o idiomau, priod-ddulliau sy'n cyfoethogi gwaith pynciol. | • casglu gwybodaeth yn effeithiol gan ddefnyddio'u gwybodaeth o ffurfiau gwahanol<br>• pwyso a mesur sut gall pethau sy'n ymddangos fel ffeithiau fod yn safbwyntiau mewn gwirionedd, a sut mae'r awdur yn cyflawni hynny<br>• adnabod gwahanol safbwyntiau ar dopig ac unrhyw feysydd lle ceir cytuno a chyferbynnu<br>• dechrau cloriannu gwerthuso effeithiolrwydd testunau o ran eu gwerth yn nhermau ansawdd a lefel diddordeb<br>• darllen yn y ddwy iaith er mwyn trawsieithu gwybodaeth berthnasol i bwnc, cynulleidfa a thestun<br>• darllen, deall a dehongli pwrpas y defnydd o idiomau, priod-ddulliau sy'n cyfoethogi gwaith pynciol. | • dadansoddi gwybodaeth yn effeithiol<br>• adnabod agweddau allweddol prosesau a dilyniannau a'u cyflwyno'n glir ac yn rhesymegol<br>• gwybod sut mae dadleuon yn cael eu llunio i fod yn argyhoeddiadol, gan gynnwys defnyddio ffeithiau a mathau gwahanol o iaith<br>• adnabod gwahanol ddehongliadau ar ffeithiau a gwybodaeth a'u cloriannu<br>• beirniadu testunau gan werthuso eu heffeithiolrwydd drwy adnabod nodweddion sy'n argyhoeddi ac sy'n apelio<br>• darllen yn y ddwy iaith er mwyn trawsieithu gwybodaeth berthnasol i bwnc, cynulleidfa a thestun<br>• darllen, deall a dehongli pwrpas y defnydd o idiomau, priod-ddulliau sy'n cyfoethogi gwaith pynciol. |

© Hawlfraint y Goron Mehefin 2012
WG14632